

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL ARWEINIAD A HAWLIADAU ARIANNOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol (“y Bil”) i Dŷ'r Arglwyddi ar 22 Mehefin 2017. Gellir cael copi o'r Bil yn:

[Bill documents — Financial Guidance and Claims Bill \[HL\] 2017-19 — UK Parliament](#)

Yr Amcan(ion) Polisi

3. Mae'r amcanion polisi a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn cynnwys ei gwneud yn fwy eglur ac yn haws i bobl drwy gael un corff arweiniad ariannol, sy'n gyfrifol am bob arweiniad ariannol cyhoeddus, ac i ddiogelu defnyddwyr rhag camweddau eang ar draws sector y Cwmnïau Rheoli Hawliadau, megis galwadau digroeso ac annog hawliadau twyllodrus, drwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddiol i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Crynodeb o'r Bil

4. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.
5. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cynnwys creu un corff arweiniad ariannol a fydd yn cynnig arweiniad ar bensiynau a materion ariannol mewn un lle, a hefyd yn meddu ar swyddogaeth strategol o ran gallu ariannol. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i datganoli cyllid ar gyfer cyngor dyledion i'r Gweinyddiaethau Datganoledig, a hefyd yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoleiddio cwmnïau rheoli hawliadau i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
6. Bydd yn ofynnol i'r corff arweiniad ariannol:
 - Gydlynu'r gwaith o ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer y DU, i wella:
 - Gallu ariannol aelodau'r cyhoedd;
 - Gallu aelodau'r cyhoedd i reoli dyledion; a
 - Rhoi addysg i blant a phobl ifanc ar faterion ariannol
 - Datblygu amcan statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff weithio'n agos â'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ddarparu gwybodaeth,

arweiniad a chyngor (am bensiynau, arian, dyledion a gallu ariannol strategol i aelodau'r cyhoedd yn y Gweinyddiaethau Datganoledig.)

- Darparu ar gyfer yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gasglu taliadau ardoll ar gyfer darparu cyngor dyledion yn y Gweinyddiaethau Datganoledig, ac i'r arian a gesglir gael ei drosglwyddo gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn uniongyrchol i bob Gweinyddiaeth Ddatganoledig.
- Sefydlu pwyllgorau i gynghori neu i weithredu ei swyddogaethau.

Darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad

7. Mae Rhan 1 y Bil yn sefydlu'r un corff arweiniad ariannol sy'n rhoi arweiniad ar bensiynau, cyngor ar ddyledion, arweiniad ar faterion ariannol a gallu ariannol strategol i alluogi pobl i gael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus (cymal 2).
8. Mae cymal 2(8) hefyd yn rhestru amcanion y corff sef gwella gallu aelodau'r cyhoedd i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus, helpu i ddarparu gwybodaeth, arweiniad a chyngor mewn meysydd lle y mae prinder ar hyn o bryd, ac diogelu gwybodaeth a sicrhau bod arweiniad a chyngor ar gael i aelodau'r cyhoedd yn y ffordd fwyaf eglur a chost-ffeithiol.
9. Mae cymal 3 y Bil yn gwneud darpariaethau penodol o ran swyddogaeth y corff ar arweiniad ar bensiynau, ac mae cymal 4 yn galluogi'r corff i drefnu i berson arall gynnal swyddogaethau penodol. Mae'r Bil yn darparu y ceir cyhoeddi canllawiau a chyfarwyddiadau i'r corff (cymal 5) a chynhwysir darpariaeth yng nghymal 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff bennu safonau cydymffurfio. Mae cymal 7 yn nodi'r gofynion monitro a gorfodi mewn perthynas ag unrhyw safonau a bennir gan y corff. Caiff cymorth ynghylch grantiau, benthyciadau neu faterion ariannol eraill mewn perthynas â sefydlu'r corff ei ddarparu yng nghymal 8, ynghyd â darpariaethau ar gyfer datgelu gwybodaeth yng nghymal 12. Mae Rhan 1 y Bil hefyd yn darparu pwerau (cymal 14) ar gyfer diddymu'r corff ac mae Atodlen 1 i'r Bil yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y corff.
10. Mae'r darpariaethau hyn yn Rhan 1 y Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â phwnc 5 Addysg a Hyfforddiant, pwnc 15 Llesiant Cymdeithasol a phwnc 4 Datblygiad Economaidd, ac nid ydynt yn dod o dan unrhyw un neu ragor o'r eithriadau a bennir yn unrhyw Ran o'r Atodlen.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn, gan ei fod yn galluogi'r darpariaethau i ddod i rym ar yr un pryd ar draws y DU, gan ganiatáu dull cydlynol mewn darn unigol o

deddfwriaeth y DU. Y Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru ac i sicrhau bod y arweiniad ariannol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gyson ar draws y DU.

Goblygiadau ariannol

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn ymwneud â darpariaethau'r Bil sydd o fewn cymhwysedd.

Casgliad

13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn, oherwydd y caiff gwasanaethau eu darparu gan yr un corff arweiniad ariannol ar draws y DU gyfan, gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn gweithio'n agos wrth ddylunio a darparu gwasanaethau, a bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r rheini sydd am wybod ble i fynd i gael cymorth o'r fath. Bydd gweithio'n agosach fel hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu dull strategol ac integredig, er enghraifft, tuag at agweddau ar gyfraith llesiant cymdeithasol megis tai, budd-daliadau, cyflogaeth a gwahaniaethu.

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
5 Gorffennaf 2017